**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, MAWRTH 27ain, 2023**

**PRESENNOL**
Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Alun Morris,
Cyng. Anwen Jones, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Dylan Jones., Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir)
**YMDDIHEURIADAU**
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)

**CADARNHAU'R COFNODION**
Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 27ain Chwefror, 2023.

1.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**
1.1 **LLINELLAU MELYN GYFERBYN AC YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, FFORDD TYRPEG UCHAF**
Y Cyngor yn dal i fonitro cerbydau yn parcio ar y llinellau melyn gyferbyn ar Ysgol Llanddoged.
1.2 **MATERION BAW CWN**
Y Clerc yn cysylltu gyda Mr Andrew Wilkinson o'r Adran Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wythnos yma i archebu bin baw cwn ar gyfer ardal Penrhiw Llanddoged.

**2. CYNLLUNIO**
**2.1 Cyfeirnod:** 0/50587 **-**Annedd Fforddiadwy Newydd Arfaethedig ar dir wrth 4 Maes Gwyn, Llanddoged.

Cyn trafod y cais 0/50587 dangosodd Cyng. Arwel Jones ei fod ganddo 'Datganiad o ddiddordeb' yn y cais, gadawodd ystafell gyfarfod. Cofnododd y clerc ei Ddatganiad o ddiddordeb ar y gofrestr. Trafodwyd gweddill aelodau y cyngor y cais a phenderfynwyd drwy aelodau'r cyngor godi eu dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

Dychwelodd Cyng Arwel Ll Jones yn ôl i'r ystafell gyfarfod.

**2.2.Cyfeirnod:** 0/50586 - Ychwanegu estyniad bach, addasiadau i'r to ar hyd yr adeilad i'r de orllewin, addasiadau i agoriad strwythurol ffenestr y lolfa a ffenestr ychwanegol i'r ystafell ymolchi Y Ffynnon Cennin Llanddoged Road Llanddoged.

Trafodwyd y cais uchod a phasiwyd drwy aelodau'r cyngor godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio..

**3. CYNNAL A CHADW**
3.1 Angen tario'r mannau pasio ar ffordd yr Abbey rhwng Wigfa a Thŷ'r Ysgol, Maenan.
3.2 Angen torri coed ar ochr chwith y ffordd lawr o Llanddoged wrth Gae Brychiad, Llanddoged.
3.3 Pentwr o 'Chippings' wedi hel ar waelod allt Tyrpeg Uchaf wrth y safle bws.
3.4 Clawdd preswyl Troed y Rhiw, Ffordd Trwyn Swch yn tyfu allan i'r ffordd.
3.5 Angen clirio'r coed ar ochr y ffordd ar Ffordd Efail Uchaf a'i gadael ar y ffordd.

**4. UNRHYW FATER ARALL**
**4.1 CEIR YN PARCIO TU ALLAN I'R YSGOL**
Pryder fod gormod o geir staff yn parcio tu allan i'r ysgol a dim digon o le i rieni barcio i godi eu plant o'r ysgol.
Angen codi'r mater yma gyda Phennaeth yr ysgol .

**4.2 MAES PARCIO GEGIN WEN, LLANDDOGED**

Pasiwyd fod angen ail-wynebu'r maes parcio Gegin Wen Llanddoged gan ei fod wedi mynd yn reit fwdlyd mewn rhai mannau. Penderfynwyd y clerc gysylltu gyda 'C. T Roberts Plant Hire Llanrwst' i holi am bris i gael llwyth o 'wastraff tarmac' i'w wasgaru ar wyneb y maes parcio**.**

**4.3. MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Nododd Cyng Nia Clwyd ei bod wedi mynychu cyfarfod gyda Mrs Haf Jones Uwch Swyddog Datblygu ac Ymgysylltu â Chymunedau. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Mr Simon Phillips, Tan Rallt, Maenan(Perchennog coedwig Cadair Ifan Goch) i drafod rhai materion sydd wedi codi yno yn ddiweddar ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus drwy'r goedwig. Mater arall a godwyd ganddynt oedd cael bin baw cwn yno. Trafodwyd aelodau'r cyngor y mater yma a phasiwyd i'r clerc archebu bin baw cwn gan yr Adran yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i osod wrth y giât i fynedfa'r llwybr cyhoeddus**.**

**4.4 ARWYDD AR GYFER MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Derbyniwyd y clerc e-bost gan berchnogion Tŷ'r Ysgol Maenan yn pryderu am nifer o 'Camperfans' yn gwersylla dros nos yn y maes parcio Cadair Ifan Goch. Eglurodd y clerc ei bod wedi cael pris am £144 gan 'Signsworkshop' i gael arwydd ar gyfer y maes parcio gydag arwyddion 'Dim gwersylla dros nos i bebyll/Camperfan/Carafán a dim cynnu tan. Cadarnhaodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i'r clerc archebu'r arwydd a gofyn faint yn ychwanegol bydd y gost o roi enw'r Cyngor Cymuned a dim gadael ysbwriel ar yr arwydd.